




Adolygiad Ysgolion

Ardal Queensferry, Shotton
a Chei Connah

Ysgol Uwchradd Cei Connah a John Summers



Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir y Fflint am weithio'n fwy effeithlon a lleihau nifer y llefydd gwag er mwyn sicrhau bod rhagor o arian ar gael i'w wario ar ysgolion.

Yr adolygiad o ysgolion yn ardaloedd Treffynnon, Queensferry/Shotton/Cei Connah a Bwcle/Mynydd Isa/yr Wyddgrug yw'r cam nesaf yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint a'i nod yw lleihau nifer sylweddol o lefydd gwag.

Caiff yr adolygiadau eu cynnal fesul tri cham:

- y broses ymgynghori anffurfiol (dyna sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd),
- cyfnod o fyfrio pan fydd y cynghorwyr yn penderfynu ar y dewis gorau ar gyfer y tair ardal
- y cyfnod statudol ffurfiol

Mae adran 'Y Camau Nesaf,' ar dudalen 9 yn y llyfryn hwn, yn egluro'r broses yn fanylach.

Yn ystod haf 2011, dechreuodd ymgynghoriadau anffurfiol ynghylch adrefnu ysgolion uwchradd yn yr ardaloedd hyn. Er bod pawb yn deall bod angen adolygu dyfodol ysgolion yn Sir y Fflint, penderfynodd y Cynghorwyr Sir oedi cyn bwrw ymlaen â'r broses er mwyn ymgymryd â rhagor o waith ar y dewisiadau i'w hystyried yn y broses ymgynghori.

Yn dilyn nifer o weithdai a gynhaliwyd dros yr hydref, mae'r Cynghorwyr yn awr ffyddiog y gallant ofyn am eich sylwadau a'ch barn am y dewisiadau a gyflwynir yn y llyfryn hwn.



Ymgynghoriad

Mae'r Cynghorwyr wedi cytuno i gynnig nifer o ddewisiadau yng nghyswllt Ysgol Uwchradd Cei Connah ac Ysgol Uwchradd John Summers.

Cytunwyd i gynnig y dewisiadau hyn i geisio lleihau nifer y llefydd gwag yn Ysgol Uwchradd John Summers a sicrhau y gall darpariaith chweched dosbarth barhau.

Mae'r dewisiadau hefyd yn awgrymu sefydlu canolfan Ôl-16 ger Ysgol Uwchradd Cei Connah a Choleg Glannau Dyfrdwy. Fe wyddoch hefyd, mae'n debyg, fod Llywodraeth Cymru, o ran egwyddor, wedi cymeradwyo cyllid i godi canolfan Ôl-16 newydd ger Ysgol Uwchradd Cei Connah a Choleg Glannau Dyfrdwy. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud eto a bydd penderfyniad terfynol y Cynghorwyr yn dibynnu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad â rhieni, athrawon, staff, disgyblion a llywodraethwyr yr ysgolion dan sylw.

Cynhelir nifer o gyfarfodydd yn Ysgol Uwchradd Cei Connah, Ysgol Uwchradd John Summers a Chanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy i drafod y dewisiadau hyn. Ar dudalen 12 mae rhagor o fanylion am ddyddiadau, amseroedd a threfniadau'r cyfarfodydd hyn. Bydd ymgynghoriad hefo plant a phobl ifanc yn cael ei drefnu yn arwahan.

Mae gwahanol ffyrdd o ddweud wrthym sut rydych yn teimlo, sef:


- gofyn cwestiynau a rhoi'ch sylwadau yn ystod y cyfarfodydd hyn
- anfon eich sylwadau, drwy lythyr, at Gyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Adolygiad Ysgolion, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6DN
- llenwi holiadur a'i anfon at Gyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Adolygiad Ysgolion, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6DN,
- llenwi holiadur ar-lein yn www.siryfflint.gov.uk/adolygiadysgolion



Daw'r ymgynghoriad i ben ddydd Gwener 27 Ebrill 2012. Mae'ch sylwadau'n bwysig i ni a byddant yn cael eu hystyried wrth i ni wneud penderfyniadau yn y dyfodol. Bydd penderfyniadau'r Cynghorwyr yn cael eu seilio ar sylwadau ystyrlon am anghenion Treffynnon yn y dyfodol.

Ar ôl darllen y ddogfen hon, fel rhiant neu ofalwr, mae'n bosibl y bydd gennych gwestiynau y byddwch yn awyddus i'w gofyn yn y cyfarfod ymgynghori. Gallwch, os dymunwch, gyflwyno'ch cwestiwn cyn y cyfarfod. Yna, byddwn yn casglu'r holl gwestiynau ynghyd i'w hateb yn ystod y cyflwyniadau. Gallwch anfon cwestiynau drwy'r e-bost at 21stCenturySchools@flintshire.gov.uk. Gallwch ofyn cwestiynau ar dudalen Adolygiad Ysgolion Ardal CSyFf 2012 ar Facebook, neu eu hanfon drwy lythyr i'r cyfeiriad uchod. Cofiwch nodi'n glir pa ardal neu ysgol y mae'ch cwestiwn yn ymwneud â hi.

Beth fydd hyd y broses?



Ewch i dudalen 9 i gael rhagor o wybodaeth

Y cefndir

Yn ôl Llywodraeth Cymru, ni ddylai ysgolion yng Nghymru fod â dros 10% o lefydd gwag. Dywed hefyd fod angen i addysg chweched dosbarth ledled Cymru fod yn effeithiol ac yn effeithlon gan gynnig amrywiaeth eang o bynciau i'r disgyblion eu hastudio.

I wneud yn siŵr bod ysgolion yn Sir y Fflint yn bodloni'r gofynion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, cymeradwyodd y Cyngorwyr Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint.

Mae'r Strategaeth yn nodi y dylai ysgolion uwchradd fod ag o leiaf 600 o ddisgyblion (11-16). Mae hefyd yn nodi y dylai'r chweched dosbarth fod â 120 o fyfyrwyr. Rhaid i ysgolion fodloni'r gofynion hyn i wneud yn siŵr eu bod yn cael digon o arian gan Lywodraeth Cymru a'i bod yn cynnig amrywiaeth eang o bynciau i'r myfyrwyr.

Mae 169 (30%) o lefydd gwag yn Ysgol Uwchradd John Summers. Mae'r chweched dosbarth yn yr ysgol yn fach; dim ond 49 o fyfyrwyr sydd ym mlynnyddoedd 12 ac 13, sy'n is na'r nifer a gytunwyd yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint. Er mwyn medru cynnal y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ysgolion eraill i wneud yn siŵr y gall gynnig amrywiaeth eang o bynciau i'r myfyrwyr.

Mae 111 (10%) o lefydd gwag yn Ysgol Uwchradd Cei Connah. Mae 137 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth, sy'n uwch na'r nifer a gytunwyd yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ysgolion eraill a Choleg Glannau Dyfrdwy i wneud yn siŵr y gall gynnig amrywiaeth eang o bynciau i'r myfyrwyr.

Mae'r dewisiadau'n cynnwys creu canolfan Ôl-16 yng Nghei Connah. Byddai hyn yn sicrhau bod digon o wahanol bynciau ar gael i'r myfyrwyr eu hastudio a hynny mewn un lleoliad mewn cyfleusterau modern a fyddai'n cynnig y dechnoleg ddiweddaraf.



Y dewisiadau

I wella'r ysgolion hyn, cynigiwyd y dewisiadau a ganlyn gan aelodau'r Cyngor:

Dewis un

- Codi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers (ysgol 11-16 a chanolfan Ôl-16 yn Ysgol Uwchradd Cei Connah)

Byddai hyn yn golygu codi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers ar y safle presennol.

Byddai'r chweched dosbarth presennol yn Ysgol Uwchradd Cei Connah ac yn Ysgol Uwchradd John Summers yn cau a byddai cyrsiau chweched dosbarth yn cael eu cynnig mewn canolfan Ôl-16 newydd yng Nghei Connah.

Nid oes arian ar gael gan Lywodraeth Cymru i godi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers. Byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu oddeutu £25m. Dyma'n fras, yw cyfanswm cost y gwaith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai'n barod, o ran egwyddor, i gyfrannu £6.6m tuag at y gost o adeiladu canolfan Ôl-16 newydd yng Nghei Connah. Hanner y gost lawn yw hyn.

Dewis dau

- Ailwampio adeilad presennol Ysgol Uwchradd John Summers (ysgol 11-16 a chanolfan Ôl-16 yn Ysgol Uwchradd Cei Connah).

Byddai hyn yn golygu ailwampio adeilad presennol Ysgol Uwchradd John Summers.

Byddai'r chweched dosbarth presennol yn Ysgol Uwchradd Cei Connah ac yn Ysgol Uwchradd John Summers yn cau a byddai cyrsiau chweched dosbarth yn cael eu cynnig mewn canolfan Ôl-16 newydd yng Nghei Connah.

Nid oes arian ar gael gan Lywodraeth Cymru i ailwampio Ysgol Uwchradd John Summers. Byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu oddeutu £13m. Dyma'n fras, yw cyfanswm cost y gwaith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai'n barod, o ran egwyddor, i gyfrannu £6.6m tuag at y gost o adeiladu canolfan Ôl-16 newydd yng Nghei Connah. Hanner y gost lawn yw hyn.

Dewis tri

- Datblygu cyfleusterau 3-16 yn Ysgol Uwchradd John Summers a chanolfan Ôl-16 yn Ysgol Uwchradd Cei Connah

Ni fyddai newidiadau i adeilad presennol Ysgol Uwchradd John Summers.

Byddai'r chweched dosbarth presennol yn Ysgol Uwchradd Cei Connah ac yn Ysgol Uwchradd John Summers yn cau a byddai cyrsiau chweched dosbarth yn cael eu cynnig mewn canolfan Ôl-16 newydd yng Ngheir Connah

Byddai Ysgol Gynradd Queensferry, sy'n rhannu'r un campws ag Ysgol Uwchradd John Summers, yn cael ei datblygu i ddarparu ar gyfer plant oed meithrin yn yr adeilad presennol.

Byddai hyn yn golygu y byddai campws Queensferry yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 16 oed. Ni fyddai'r ysgolion yn uno. Byddai'r ddwy ysgol yn parhau i fod yn gwbl ar wahân gyda dau bennaeth a dau gorff llywodraethu.

Nid oes arian ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith o ddatblygu Ysgol Gynradd Queensferry i gynnwys dosbarth meithrin ond bydd y côst yn gynharol isel.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai'n barod, o ran egwyddor, i gyfrannu £6.6m tuag at y gost o adeiladu canolfan Ôl-16 newydd yng Ngheir Connah. Hanner y gost lawn yw hyn.

Dewis pedwar

- Uno Ysgol Uwchradd John Summers ac Ysgol Uwchradd Cei Connah gan ddefnyddio'r safleoedd presennol. (Un pennaeth ac un corff llywodraethu a fyddai'n golygu cau'r ddwy ysgol yn dechnegol ac agor un ysgol newydd ar y safleoedd presennol).

Byddai'r dewis hwn yn golygu cau Ysgol Uwchradd Cei Connah ac Ysgol Uwchradd John Summers. Byddent yn uno i greu un Ysgol Uwchradd newydd gydag un pennaeth ac un corff llywodraethu. Byddai'r Ysgol Uwchradd newydd yn parhau i weithredu yn yr un modd ar y ddau safle presennol.

Byddai'r chweched dosbarth presennol yn Ysgol Uwchradd Cei Connah ac yn Ysgol Uwchradd John Summers yn cau a byddai cyrsiau chweched dosbarth yn cael eu cynnig mewn canolfan Ôl-16 newydd yng Ngheir Connah.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai'n barod, o ran egwyddor, i gyfrannu £6.6m tuag at y gost o adeiladu canolfan Ôl-16 newydd yng Ngheir Connah. Hanner y gost lawn yw hyn.

Y dewisiadau (i'w barhau)

Mae'n bwysig bod y Cyngor yn gwella adeiladau ysgolion ac yn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i wella ysgolion ledled Cymru. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i gynghorau oni bai bod ganddynt gynlluniau i godi adeiladau newydd ar gyfer ysgolion neu i ymestyn a gwella ysgolion i greu cyfleusterau modern.

Os bydd y Cynghorwyr yn penderfynu bwrw ymlaen ag un o'r dewisiadau na all Llywodraeth Cymru ei ariannu, bydd yn rhaid i'r Cyngor wedyn flaenoriaethu'i gyllid ei hun, ochr yn ochr â'i ymrwymïadau ariannol eraill, ac ystyried sut y gallai godi'r arian angenrheidiol.

Bydd unrhyw benderfyniad yn ystyried nifer y disgyblion sydd, yn ôl yr ystadegau, yn debygol o wneud cais am le mewn ysgol yn ardaloedd Queensferry, Shotton a Chei Connah yn ystod y 15-20 mlynedd nesaf. Byddai hyn yn ystyried ffactorau fel datblygiadau tai newydd.



Trefniadau teithio

Os bydd yn rhaid i ddisgyblion deithio i safle arall yn dilyn unrhyw gynllun i ad-drefnu ysgol, byddai'r Cyngor yn gwneud trefniadau priodol i'r disgyblion hynny sydd wedi cofrestru eisoes yn yr ysgol dan sylw.

Y camau nesaf

Dyma'r ymgynghoriad cychwynnol. Bydd eich barn a'ch sylwadau'n cael eu casglu ynghyd i'w hystyried gan y Cyngorwyr ddechrau'r haf pan fyddant yn penderfynu a ydynt am symud ymlaen i gam nesaf yr ymgynghoriad.

Caiff ail gam yr ymgynghoriad ei gynnal ddiwedd yr haf cyn i'r Cyngorwyr wneud penderfyniad terfynol. Cewch wybod pryd y bydd y cam nesaf yn dechrau.

Ar ôl yr ail ymgynghoriad, bydd y Cyngorwyr yn penderfynu a ydynt am fwrw ymlaen ag un cynnig penodol. Os byddant yn penderfynu gwneud hynny, bydd y cyfnod statudol yn dechrau. Yn ystod y cyfnod statudol, bydd manylion un cynnig penodol yn cael eu cyflwyno'n glir a chewch un mis i anfon unrhyw wrthwynebiad ysgrifenedig atom.

Os bydd y Cyngor yn cael dim ond un gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod hwn, caiff y mater ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru a nhw fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.



Rhestr Termau

Uno - Pan fydd dwy ysgol neu ragor yn cau ac yna'n cael eu cyfuno i greu un ysgol newydd gydag un pennaeth ac un corff llywodraethu. Bydda i'r ysgol newydd yn cael ei rhannu rhwng safleoedd gan ddefnyddio'r adeiladau presennol.

Llefydd gwag - Mae adeiladau rhai ysgolion yn rhy fawr o ystyried nifer y disgyblion sydd ganddynt. Yn ôl Llywodraeth Cymru, ni ddylai ysgolion yng Nghymru fod â dros 10% o lefydd gwag. Hynny yw, os yw ysgol yn ddigon mawr ar gyfer 500 o ddisgyblion, dylai fod ganddi o leiaf 450 o ddisgyblion ar ei chofrestr.



Rhesymoli addysg Ôl 16 - Yn ôl Llywodraeth Cymru mae'n rhaid i'r chweched dosbarth fedru cynnig o leiaf 30 pwnc gwahanol i fyfyrwyr eu hastudio. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i ysgolion gynnal chweched dosbarth. Mae'n gwneud hyn drwy roi swm penodol o arian ar gyfer pob myfyriwr sy'n cofrestru i astudio yn y chweched dosbarth. Lleia'n y byd sy'n cofrestru, lleia'n y byd o arian gaiff yr ysgol. Mae Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor yn dweud bod angen 120 o ddisgyblion i fedru cynnal chweched dosbarth.

Canolfan Ôl-16 - Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno o ran egwyddor i ariannu canolfan chweched dosbarth newydd yn Sir y Fflint a fyddai'n cynnig amrywiaeth lawn o bynciau i fyfyrwyr eu hastudio, a'r cyfan ar un safle. Mae'r Cyngorwyr, yr ysgolion a Choleg Glannau Dyfrdwy wedi cytuno mai Cei Connah fyddai'r lle gorau i greu canolfan o'r fath, er nad oes yr un penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto.

Campws Dysgu - Creu adeiladau ysgol newydd a modern ar un safle sy'n rhannu rhai cyfleusterau, sy'n manteisio ar y dechnoleg newydd ac sy'n cael eu defnyddio gan y gymuned gyfan.

Ysgolion yr unfed ganrif ar hugain - Mae Llywodraeth Cymru, drwy weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) am wella addysg a sicrhau bod safonau addysg Cymru gyda'r gorau yn y byd. I wneud hyn mae angen adeiladau ysgol modern, sydd â'r dechnoleg ddiweddaraf, sy'n ysbrydoli plant, pobl ifanc a'r gymuned ehangach i ddysgu.

Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint - dogfen y mae'r Cyngorwyr wedi'i mabwysiadu sy'n egluro'r problemau sy'n wynebu'r Cyngor wrth iddo ddatblygu ysgolion sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Gwybodaeth a dogfennau ychwanegol

Dogfennau eraill yn ymwneud â'r Adolygiad Ysgolion

Mae'r dogfennau ar gyfer yr adolygiadau eraill i'w gweld ar wefan y Cyngor
www.sirfflint.gov.uk/adolygiadysgolion

Ardal Treffynnon – Ysgol Uwchradd Treffynnon

Ardal Treffynnon - Ysgol Perth y Terfyn ac Ysgol y Fron

Ardal Bwcle – Ysgol Uwchradd Elfed ac Ysgol Gynradd Westwood

Ardal Queensferry, Shotton, a Chei Connah – Ysgol Uwchradd Cei Connah ac Ysgol Uwchradd John Summers

Gwybodaeth ddefnyddiol berthnasol

Partneriaeth Dysgu 14-19 – Achos Amlinellol Strategol

Arweiniad i Wasanaethau Addysg

Pecyn Gwybodaeth Moderneiddio Ysgolion

Strategaeth Moderneiddio Ysgolion

Mae'r dogfennau uchod i'w gyd i'w gweld ar wefan y Cyngor
www.sirfflint.gov.uk/adolygiadysgolion neu cysylltwch â'r
Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes ar 01352 704011.

Gwefannau defnyddiol eraill

Ysgolion yr ugeinfed ganrif ar hugain – ar gael
drwy ddilyn dolen ar wefan Cyngor Sir y Fflint,
sef www.sirfflint.gov.uk/adolygiadysgolion
neu ewch i www.21stcenturyschools.org



Cyfarfodydd ymgynghori

Lle	Gwahoddedigion	Dyddiad	Amser	Natur y cyfarfod
Ysgol Uwchradd Ceiri Connah	<i>Athrawon a Staff Ategol Ysgol Uwchradd Ceiri Connah</i>	<i>5/3/2012</i>	<i>3.45pm</i>	<i>Cyfarfod ag uwch swyddogion y Cyngor a sesiwn holi ac ateb.</i>
	<i>Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Ceiri Connah</i>	<i>5/3/2012</i>	<i>5.30pm</i>	<i>Cyfarfod ag uwch swyddogion y Cyngor a sesiwn holi ac ateb.</i>
	<i>Rhieni/Gofalwyr disgyblion Ysgol Uwchradd Ceiri Connah</i>	<i>5/3/2012</i>	<i>6.30pm</i>	<i>Gweler y rhaglen isod</i>
Ysgol Uwchradd John Summers	<i>Athrawon a Staff Ategol Ysgol Uwchradd John Summers</i>	<i>6/3/2012</i>	<i>3.45pm</i>	<i>Cyfarfod ag uwch swyddogion y Cyngor a sesiwn holi ac ateb.</i>
	<i>Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd John Summers</i>	<i>6/3/2012</i>	<i>5.30pm</i>	<i>Cyfarfod ag uwch swyddogion y Cyngor a sesiwn holi ac ateb.</i>
	<i>Rhieni/Gofalwyr disgyblion Ysgol Uwchradd John Summers</i>	<i>6/3/2012</i>	<i>6.30pm</i>	<i>Gweler y rhaglen isod</i>
Canolfan Glannau Dyfrdwy	<i>Rhieni/Gofalwyr disgyblion ysgolion cynradd ardal Queensferry, Shotton a Cheiri Connah</i>	<i>12/3/2012</i>	<i>6.30pm</i>	<i>Gweler y rhaglen isod</i>

Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

- Fel rhiant neu ofalwr disgybl(ion) yn Ysgol Uwchradd Ceiri Connah, Ysgol Uwchradd John Summers neu ddisgyblion ysgolion cynradd ardal Queensferry, Shotton a Cheiri Connah, fe'ch gwahoddir i un o'r cyfarfodydd uchod.
- Dylech ddod i'r cyfarfod sydd fwyaf cyfleus i chi a'ch plentyn/plant.
- Bydd dau gyflwyniad a chewch ddewis fynd i'r naill neu'r llall a bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau.
- Mae amser y cyflwyniadau wedi'u nodi uchod. **Bydd y ddau gyflwyniad yr un fath yn union.** Does dim angen neilltuo lle, dim ond dod draw i'r cyflwyniad sydd fwyaf cyfleus i chi.
- Bydd lle anffurfiol i wrando ar gael hefyd. Bydd swyddogion y Cyngor wrth law i ateb cwestiynau. Gallai'r trefniant hwn apelio at bobl y byddai'n well ganddynt gyfarfod llai ffurfiol. Bydd hefyd ar gael i bobl sydd wedi gwrandao ar y cyflwyniadau ac yn awyddus i sgwrsio'n fwy anffurfiol wedyn gyda swyddogion y Cyngor.

RHAGLEN

18.30	<i>Cyflwyniad gan uwch swyddogion y Cyngor a Chynghorwyr</i>
18.50	<i>Cwestiynau</i>
19.20	<i>Diwedd y cyflwyniad cyntaf</i>
19.30	<i>Ailadrodd Cyflwyniad gan uwch swyddogion y Cyngor a Chynghorwyr</i>
20.20	<i>Diwedd yr ail gyflwyniad</i>
21.00	<i>Diwedd y cyfarfod</i>

18.30

Lle anffurfiol i wrandao

*Bydd uwch swyddogion
a chynghorwyr wrth
law i ateb unrhyw
gwestiynau'n anffurfiol*

21.00